Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Cynllun Gweithredu: CEM Berwyn

Cynllun Gweithredu wedi’i gyflwyno: 16 Medi 2022

Ymateb i Arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: 16 – 27 Mai 2022

Adroddiad wedi'i gyhoeddi: 06 Medi 2022

## RHAGARWEINIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EM (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EM ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy’n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr a sut y cânt eu trin. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, a gwasanaethau troseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i'r adroddiad mae'n ofynnol i HMPPS / MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r pryderon allweddol a blaenoriaethol. Mae cynlluniau gweithredu yn darparu camau gweithredu penodol i fynd i’r afael â’r pryderon blaenoriaethol ac allweddol. Mae’r camau gweithredu yma yn glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, ac yn berthnasol, gyda pherchennog ac amserlen pob cam wedi’u nodi’n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu i HMIP a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd cynnydd y broses o hyrwyddo a chyflawni'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro, ac adroddir arno.

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD HMIP

SEFYDLIAD: CEM BERWYN

| 1. Rhif Arg | 2. Pryderon | 3. Ymateb<br>Camau a Gymerwyd/Cynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon â blaenoriaeth** | | | |
| 1 | **Roedd cleifion yn aros yn rhy hir i gael mynediad i glinigau gofal sylfaenol arferol**.<br>Arweiniodd staffio gofal sylfaenol a threfniadau hebrwng swyddogion carchar anghyson at arosiadau hir o hyd at 12 mis mewn llawer o glinigau arferol. | Er mwyn gwella amseroedd aros ar gyfer clinigau gofal sylfaenol arferol, mae CEM Berwyn wedi/yn mynd i gyflwyno'r camau canlynol:<br><br>• Mae amseroedd aros ar gyfer pob gwasanaeth yn cael eu hadolygu a'u monitro bob mis yn y cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, sy'n cynnwys aelodaeth iechyd a charchar.<br>• Aethpwyd i'r afael ag amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau Meddygon Teulu (MT) arferol trwy gyflwyno menter rhestrau aros MT arferol o gynyddu nifer y meddygon teulu dros dro, a thrwy fabwysiadu model cyflenwi tai preswyl i leihau diffyg presenoldeb. Yn cyd-fynd â hyn mae cychwyn clinigau MT mewn tai preswyl yng Ngheiriog, i wella effeithlonrwydd y sesiynau MT sydd ar gael trwy leihau absenoldeb.<br>• Swyddog recriwtio amser llawn mewn swydd, i gefnogi recriwtio amserol i swyddi clinigol gwag.<br>• Bydd y sefydliad yn adolygu symudiad carcharorion i gefnogi presenoldeb mewn apwyntiadau mewnol yn ystod y Diwrnod Craidd fel rhan o Gynllun Adfer COVID-19. Bydd hyn yn cefnogi mynediad i Wasanaethau Iechyd ac yn lleihau'r pwysau ar | Llywodraethwr/Darparwr Iechyd<br><br>Llywodraethwr/Darparwr Iechyd<br><br>Llywodraethwr/Darparwr Iechyd<br><br>Llywodraethwr/Darparwr Iechyd | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Tachwedd 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | swyddogion i hwyluso pob symudiad i Ofal Iechyd ac oddi yno.<br>• Mae'r sefydliad wedi adolygu'r Proffil Gweithgaredd, ac wedi darparu arweiniad a chymorth i'r Ardaloedd Preswyl sy'n ymwneud â Phresenoldeb ar Weithgaredd ac Apwyntiadau. Cefnogir hyn ymhellach gan gynnydd yn yr adnodd cymorth swyddogion carchar ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Meddygon Teulu o fewn y proffil newydd.<br>• Mae cyllid ar gyfer menter rhestr aros gofal deintyddol arferol, i gynyddu nifer y deintyddion dros dro i glirio'r ôl-groniad, wedi'i gymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys recriwtio adnodd clinigol ychwanegol i gynyddu cynhwysedd yn ystod cyfnod y fenter. Mae cyflawni'r fenter hon yn dibynnu ar recriwtio'r clinigwyr ychwanegol.<br>• Bydd y Darparwr Iechyd a'r Tîm Gweithredol yn monitro Cyfraddau Presenoldeb yng Nghyfarfod Misol y Grŵp Cyflawni Iechyd Lleol, ac mae Is-grŵp Gwella penodol wedi'i sefydlu i gydredeg â'r newidiadau i Adnodd Symudiad a Chefnogi, er mwyn monitro ac ysgogi gwelliant. | Llywodraethwr/Darparwr Iechyd<br><br>Llywodraethwr/Darparwr Iechyd<br><br>Llywodraethwr/Darparwr Iechyd | Tachwedd 2022<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |
| 2 | **Roedd gormod o'r boblogaeth heb ddigon o weithgaredd nac amser heb fod dan glo**.<br>Nid oedd digon o addysg a gweithleoedd ar gyfer y boblogaeth. | Er mwyn cynyddu nifer yr addysg a'r gweithleoedd sydd ar gael, a'r amser a dreulir heb fod dan glo, bydd CEM Berwyn yn:<br><br>• Recriwtio i ofynion staffio'r diwydiant, gan alluogi'r carchar i gynyddu hyd at y capasiti mwyaf unwaith y bydd y staff ychwanegol wedi bod trwy brosesau fetio a Chynefino HMPPS. | Llywodraethwr | Ionawr 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd goruchwylwyr gweithgaredd yn monitro ac yn rhoi adborth ar dargedau yn erbyn niferoedd cynyddol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd llithriant i sicrhau bod y carchar yn aros ar darged.<br>• Bydd recriwtio Arweinydd Cyflogaeth Carchar newydd yn galluogi'r rheolwr Dysgu a Sgiliau (D&S) i graffu a chanolbwyntio gwaith ar ddarpariaeth D&S i sicrhau bod hyn yn unol â disgwyliadau'r contract.<br>• Ymestyn y ddarpariaeth addysg wreiddiedig i feysydd gwaith a gefnogir gan y camau gweithredu uchod.<br>• Mae cyfres o swyddi wedi'u dyfeisio i gefnogi unigolion sy'n hunan-ynysu, i annog dilyniant a gwell rhyngweithio â lleoedd gweithgareddau eraill.<br>• Cynnal adolygiad o ddarpariaeth Carcharorion Agored i Niwed (VP) penodedig i sicrhau y gellir darparu gweithgaredd rhan amser o leiaf i bob dyn o'r cymunedau hyn. Mae cyfarfod gyda'r holl bartïon perthnasol wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2022 i symud y darn hwn o waith yn ei flaen a darparu trefn garchardai VP lawn ar gyfer Ionawr 2023.<br>• Bydd mannau gweithgareddau a phresenoldeb yn cael eu trafod yng nghyfarfod briffio gweithredol y bore, yn cael eu monitro'n wythnosol (yn lleol ac yn genedlaethol) gan ddefnyddio'r dangosfwrdd cyfundrefnau, a'u trafod yn chwarterol yn y cyfarfod Lleihau Aildroseddu, i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion.<br>• Erbyn Rhagfyr 2022 bydd gan y carchar o leiaf 80% o ddynion cymwys wedi'u neilltuo i weithio gyda lleiafswm disgwyliad o 85% yn mynychu'r gweithle. | Llywodraethwr<br>Llywodraethwr<br>Llywodraethwr<br>Llywodraethwr<br>Llywodraethwr<br>Llywodraethwr<br>Llywodraethwr | Ionawr 2023<br>Ionawr 2023<br>Ionawr 2023<br>Medi 2022<br>Ionawr 2023<br>Hydref 2022<br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Nid oedd presenoldeb carcharorion mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ddigon da.**<br>Nid oedd digon yn cael ei wneud i annog carcharorion i fynychu gweithgareddau, ac yn aml dim ond tua 60% o garcharorion a neilltuwyd i weithgaredd a fynychodd. | Bydd CEM Berwyn yn ysgogi cynnydd cynyddrannol mewn presenoldeb drwy:<br><br>• Bydd Goruchwylwyr Gweithgaredd Band 4 yn monitro ac yn adrodd ar niferoedd gweithgaredd yn ddyddiol, trwy system presenoldeb Gwybodaeth Reoli, i fonitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau cynyddu i'r targedau capasiti disgwyliedig. Bydd y Rheolwr Gweithgareddau Gwarchodol yn monitro darpariaeth well mewn partneriaeth â Goruchwylwyr Gweithgareddau yn yr ardaloedd Preswyl, i ysgogi gwell presenoldeb mewn gweithgareddau.<br>• Bydd Ymgysylltu a Defnyddio tri Mentor Cymheiriaid Cyflogaeth, un ar bob bloc tai, yn cefnogi ymgysylltiad ac ysgogiad carcharorion i fynychu gweithgareddau, trwy siarad â phawb nad ydynt yn mynychu ym mhob cymuned, gan bwysleisio manteision presenoldeb. Byddant yn rhoi adborth o'u sgyrsiau i'r rheolwr gweithgaredd.<br>• Bydd monitro presenoldeb dyddiol Addysg/Diwydiannau yn ategu'r camau gweithredu uchod i fonitro presenoldeb mewn gweithgareddau yn rhagweithiol, a herio diffyg presenoldeb. Pan/os bydd diffyg presenoldeb mynych yn dilyn ymgysylltu a sgyrsiau ysgogol, bydd rhybuddion yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r Polisi Cymhellion, ac yn cael eu trafod yn y bwrdd dyraniadau.<br>• Bydd CEM Berwyn yn cwblhau gwaith glanhau data o'r adroddiadau Nomis presennol, i sicrhau rhwyddineb defnydd ar gyfer yr ardaloedd Preswyl a chywirdeb adrodd drwy'r dangosfwrdd cyfundrefn. | <br><br>Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr | <br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd mannau gweithgareddau a phresenoldeb yn cael eu trafod yng nghyfarfod briffio gweithredol y bore, yn cael eu monitro'n wythnosol (yn lleol ac yn genedlaethol) gan ddefnyddio'r dangosfwrdd cyfundrefnau, a'u trafod yn chwarterol yn y cyfarfod Lleihau Aildroseddu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion.<br>• Bydd o leiaf 80% o garcharorion cymwys yn cael eu dyrannu i weithio, gyda lleiafswm disgwyliad o 85% yn mynychu'r gweithle. | Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr | Hydref 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |
| 4 | **Roedd prinder staff yn genedlaethol yn effeithio ar allu arweinwyr i ddarparu trefn adsefydlu gwbl weithredol.** Yn benodol, roedd prinder difrifol o swyddogion band 3, staff gwasanaeth prawf a staff gofal iechyd yn effeithio ar ddarpariaeth rhai gwasanaethau. | Er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir yng Ngharchar EM Berwyn mae'r Llywodraethwr, HMPPS, a GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r prinder staff drwy'r camau gweithredu canlynol:<br><br>(1) I gynyddu recriwtio a chadw swyddogion carchar bydd HMPPS a CEM Berwyn yn:<br><br>• O fis Medi 2022 bydd Mentor Cydweithiwr Newydd yn cael ei neilltuo i bob gweithiwr newydd, gweithredol ac anweithredol, i roi cymorth priodol iddynt.<br>• O fis Awst 2022 bydd CEM Berwyn yn treialu cyflwyno recriwtio lleol i ategu strwythurau recriwtio cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Carchar yn y carchar.<br>• Datblygu strategaethau cadw ac ymgysylltu ar gyfer yr holl staff trwy brosiect 20 carchar gorau HMPPS (menter cadw a noddir gan HMPPS, i wella cadw staff lle mae cyfradd gadael carchardai yn uchel). | Llywodraethwr/HMPPS | Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adolygu strategaethau Adnoddau Dynol (AD) craidd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gweithgareddau recriwtio a chadw fel rhan o'r prosiect 8 Carchar Uchaf (menter genedlaethol sy'n monitro darpariaeth cadw staff CEM Berwyn yn erbyn pecyn cymorth cadw staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder).<br>• Mae CEM Berwyn yn anelu at weld gwelliant yn y ddarpariaeth dros y deuddeg mis nesaf a/neu bydd yn bwrw ymlaen â chynlluniau lleihau poblogaeth a/neu addasiadau i'r gyfundrefn er mwyn sicrhau cysondeb darpariaeth yn erbyn yr amlen adnoddau sydd ar gael i'r carchar. | | |
| | | (2) Mae pryderon staffio'r gwasanaeth prawf yn cael sylw yn y tymor hir drwy recriwtio staff prawf newydd a hyfforddedig gan HMPPS Cymru (Cymhwyster Proffesiynol yn y Gwasanaeth Prawf [PQiP]). Mae'r prognosis hirdymor yn awgrymu na fydd y pwysau staffio yn cael sylw llawn tan 2024. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau interim bydd strwythur staffio interim yn cael ei gytuno a'i roi ar waith, i wneud y defnydd gorau o staff hyfforddedig y gwasanaeth prawf a chyflwyno cymorth Swyddogion y Gwasanaeth Prawf (PSO) nes bod staff PQiP hyfforddedig ar gael. Nod y carchar yw cael cymeradwyaeth ar gyfer y trefniadau interim newydd hyn erbyn mis Hydref 2022. | Llywodraethwr/HMPPS Cymru | Hydref 2024 |
| | | (3) Mae pwysau staffio gofal iechyd yn debyg i'r rhai yng Nghymru a Lloegr ar draws economïau iechyd. Mae cynnydd sylweddol eisoes wedi digwydd i fynd i'r afael â pheth pwysau staffio (e.e., o fewn y Tîm Iechyd | Llywodraethwr/Darparwr Iechyd | Awst 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Meddwl). Mae pwysau staffio Gofal Sylfaenol yn y tymor hwy yn cael ei ddatblygu drwy waith rhagweithiol a wneir gan y darparwr iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Mae GIG Cymru a'r Llywodraethwr yn monitro llwyddiant y recriwtio hwn a'r effaith ar y drefn carchardai drwy'r Grŵp Cyflawni Iechyd Lleol a'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol. | | |
| | **Pryderon allweddol** | | | |
| 5 | **Nid oedd digon o garcharorion yn deall y rhesymeg y tu ôl i'w dyraniad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.** Teimlai rhai carcharorion eu bod yn cael eu dyrannu i weithgareddau nad oeddent yn cyd-fynd â'u diddordebau, a'u bod yn aml yn tarfu ar ddosbarthiadau. | Er mwyn helpu carcharorion i ddeall y broses ddyrannu ar gyfer addysg, hyfforddiant, a chyflogaeth ar y cyd â'u dyheadau a'u targedau dysgu a gwaith unigol fel rhan o Strwythur Academi'r Gyfundrefn, mae'r Rheolwr Addysg a Dysgu a Sgiliau wedi: | | |
| | | • Cyflawni gwaith i gyflwyno byrddau hysbysebu yn egluro rolau meysydd gwaith academïau ar draws y carchar. | Llywodraethwr | Medi 2022 |
| | | • Cychwyn proses bwrdd dyrannu mwy hyblyg, i alluogi carcharorion i symud dros dro i academi arall i ennill sgiliau ychwanegol drwy gydol eu dedfryd, lle bo'n briodol, i helpu i gynyddu presenoldeb. . | Llywodraethwr | Medi 2022 |
| | | Camau gweithredu tymor hwy erbyn Rhagfyr 2022 fydd: | | |
| | | • Cyflwyno a sefydlu'r Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith newydd fel yr uwch arweinydd sy'n gyfrifol am sicrhau cyfleoedd dysgu a dilyniant priodol ac effeithiol i bawb yn y carchar. | Llywodraethwr | Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd cynrychiolwyr Lleihau Aildroseddu yn mynychu Sesiwn Sefydlu'r holl staff newydd i rannu gwybodaeth am Strwythur yr Academi, fel y gall staff friffio carcharorion ar y broses ddyrannu.<br>• Dangos cyflwyniad i garcharorion yn ystod Sefydlu, ac ar Teledu Berwyn, i wella dealltwriaeth o'r gwaith a'r broses dyrannu academi.<br>• Bydd y Rheolwr Dysgu a Sgiliau yn sicrhau ansawdd y Cynllun Dysgu a Gwaith Unigol, i sicrhau bod strwythur yr academi yn cael ei ddilyn, a mynd i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Bydd hyn yn fisol ac yn cael ei adrodd yn ôl trwy'r adroddiad gwybodaeth rheoli misol lleol. | Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr | Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |
| 6 | **Roedd lefelau trais yn parhau i fod yn rhy uchel.**<br>Ni ddefnyddiwyd data'n dda i fonitro a nodi tueddiadau dros amser, nac i lywio cynllun gweithredu effeithiol. | Bydd CEM Berwyn yn anelu at leihau lefelau trais drwy:<br><br>• Bydd y Cyfarfod Carchardai Mwy Diogel misol yn adolygu sut y caiff data diogelwch ei ddadansoddi, gan nodi'r ffactorau sy'n ysgogi trais, a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ysgogiadau hyn. Bydd camau gweithredu yn mynd i'r afael â thueddiadau trais ac anghenion yr unigolion. Bydd effeithiolrwydd sut mae data'n cael ei ddadansoddi, a chamau gweithredu dilynol yn cael eu monitro'n agos yn y cyfarfod i sicrhau bod lefelau trais yn parhau i ostwng.<br>• Bydd canllawiau sy'n tynnu ar gyngor gan y Tîm Diogelwch Cenedlaethol yn cael eu defnyddio i nodi meysydd o arfer gorau y gellir eu rhannu a'u hymgorffori yn ffordd y carchar ei hun o weithio. | Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr | Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Ymhlith y gwelliannau y bydd y carchar yn eu datblygu mae:<br>- Datblygu cynlluniau preswyl a diogelwch ar y cyd lle mae risg uwch o gyflawni gweithredoedd treisgar.<br>- Ymgysylltu a defnyddio gweithwyr Cefnogaeth ym maes Diogelwch gan Gymheiriaid.<br>- Cyflwyno Strategaeth Rheoli Dyled well, mewn partneriaeth â'r tîm camddefnyddio sylweddau.<br>• Mae Carchar EM Berwyn yn rhan o brosiect Gwasanaethau Cymorth Gwell a fydd yn darparu goruchwyliaeth well gan reolwyr o garcharorion mwyaf treisgar a thrafferthus y carchar, gan ddefnyddio rhaglen rheoli achosion ac ymyrraeth ar y cyd yn seiliedig ar iechyd, gweithrediadau a seicoleg. | Llywodraethwr<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Llywodraethwr | Rhagfyr 2022<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ebrill 2023 |
| 7 | **Roedd cyfraddau hunan-niwed yn parhau i fod yn rhy uchel.**<br>Nid oedd gwaith allweddol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi carcharorion a oedd mewn perygl o hunan-niweidio, ac nid oedd ôl-drafodaethau yn dilyn gweithredoedd o hunan-niwed yn cael eu cynnal bob amser. Roedd y dadansoddiad o ddata hunan-niwed yn rhy gyfyngedig i fesur cynnydd a llywio arfer gwell. | Bydd CEM Berwyn yn anelu at leihau lefelau hunan-niweidio drwy:<br><br>• Neilltuo gweithwyr allweddol i bob carcharor ar Asesiad, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) i sicrhau bod cymorth cyson yn cael ei ddarparu i'r unigolyn, gyda'r gweithiwr allweddol yn mynychu adolygiadau ACCT, lle bynnag y bo modd, i ddarparu cyfraniadau ychwanegol i'r broses.<br>• Sicrhau bod yr holl ôl-drafodaethau yn dilyn gweithred o hunan-niwed yn cael eu cwblhau o fewn 24 awr i'r digwyddiad, gyda gweithredoedd hunan-niweidio difrifol yn cael eu cwblhau ar unwaith. Bydd Rheolwyr Preswyl yn sicrhau bod Swyddogion Goruchwylio yn cynnal ôl-drafodaeth o fewn yr amserlenni penodedig. | Llywodraethwr | Ionawr 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adolygu'r prosesau ACCT a rheoli achosion i gefnogi'r carcharorion mwyaf cymhleth yn y carchar. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan ddadansoddiad cyfredol sy'n dangos bod cyfran sylweddol o'r rhai sy'n hunan-niweidio yn nifer fach o garcharorion cymhleth. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys magu hyder rheolwyr achos a staff i reoli dynion cymhleth a darparu llwybr i'w huwchgyfeirio pe bai angen arweiniad.<br>• Mae ACCT fersiwn 6 bellach wedi'i sefydlu ar draws y carchar gyda gwiriadau sicrwydd ansawdd yn cael eu cwblhau gan y Swyddog Trefnu Nos, Rheolwyr Preswyl, a'r Tîm Carcharu Mwy Diogel. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i wella ansawdd dogfennau ACCT gan gynnwys ailstrwythuro llif gwaith rheolwyr preswyl i roi mwy o atebolrwydd am ansawdd dogfennau ACCT ym mhob ardal breswyl. Bydd hyn, ynghyd â hyfforddiant ychwanegol, sesiwn hyfforddi, cydnabyddiaeth o waith cadarnhaol ac ymarferion sicrwydd yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliant yn ansawdd Actau.<br>• Gwella'r ffordd y mae'r tîm diogelwch yn defnyddio/dadansoddi data er mwyn deall y ffactorau sy'n llywio hunan-niwed, a thrwy ddefnyddio data sydd ar gael o'r 12 mis diwethaf i helpu i nodi tueddiadau a phennu camau gweithredu priodol. Bydd gwybodaeth am arfer gorau hefyd yn cael ei cheisio gan y Tîm Diogelwch Cenedlaethol. Yna bydd prosesau presennol yn cael eu hadolygu a'u newid i ymgorffori ffyrdd gwell o weithio.<br>• Caiff effeithiolrwydd y ffordd y caiff data ei ddadansoddi, a chamau gweithredu dilynol, eu | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | monitro'n agos yn y Cyfarfod Carchardai Mwy Diogel misol, i fesur cynnydd o ran lleihau lefelau hunan-niwed. | | |
| 8 | **Nid oedd y systemau ceisiadau a chwynion yn gwbl effeithiol.**<br>Roedd llawer o garcharorion yn aros yn rhy hir am ymateb i'w ceisiadau a'u cwynion. Ni ddadansoddwyd data i ddeall a mynd i'r afael â themâu cyffredin, ac roedd diffyg sicrwydd ansawdd effeithiol i ysgogi gwelliant. | Er mwyn gwella effeithiolrwydd y system ceisiadau a chwynion bydd CEM Berwyn yn:<br><br>• Mynd i'r afael ag amseroedd ymateb drwy gyflwyno proses uwchgyfeirio newydd i ddarparu gwell amser ymateb i geisiadau ac ymateb i gwynion.<br>• Datblygu prosesau monitro gan ddechrau gydag e-bost cychwynnol gan y tîm cwynion a, lle na ddarperir ymateb o fewn 24 awr, bydd y mater yn cael ei uwchgyfeirio i reolwr yr Hwb Busnes i'w godi gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol Dyddiol. Bydd y broses hon hefyd yn cael ei chymhwyso i gwynion allanol.<br>• Gweithio gyda gweithwyr cymorth cymheiriaid torri'r gadwyn a Gwrandawyr Carchar i gael adborth ar faterion cyffredin gyda chwynion, a chreu rhai Cwestiynau Cyffredin (FAQs) a chyfeirio. Y nod fydd ymateb yn rhagweithiol i wella ymwybyddiaeth o faterion a thueddiadau sy’n peri pryder, er mwyn helpu i leihau’r angen i godi ceisiadau a chwynion.<br>• Mae prydlondeb a Sicrwydd Ansawdd cwynion yn cael eu monitro gan yr Hwb Busnes, sy'n cynhyrchu adroddiad wythnosol ac yn ei rannu ag ymatebwyr a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes, i olrhain cynnydd ac amserlenni er mwyn helpu i ysgogi gwelliant.<br>• Bydd yr Hwb Busnes yn dadansoddi cwynion a chymwysiadau, i ddeall a mynd i'r afael â themâu cyffredin. Mae dadansoddiad cychwynnol wedi nodi | Llywodraethwr | Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | rhai materion y gellid mynd i'r afael â hwy yn wahanol, er mwyn lleihau'r nifer fawr iawn o geisiadau a gwella amseroedd ymateb o ganlyniad i hyn.<br>• Bydd y broses ymgeisio yn cael ei monitro'n wythnosol i edrych ar y nifer a'r mathau o geisiadau sydd wedi'u cyflwyno. Bydd dadansoddi data yn llywio'r broses o resymoli proses Unilink i wella'r broses o ddyrannu ceisiadau i'r adran neu swyddogaeth briodol. Bydd hyn yn lleihau dyblygu gwaith ac yn darparu ymatebion mwy prydlon. Yn ogystal, bydd monitro wythnosol o'r broses yn edrych ar nifer y ceisiadau sy'n hwyr. Bydd ardaloedd wedyn yn cael gwybod am y rhain er mwyn sicrhau y rhoddir ymatebion prydlon<br>• Bydd y carchar yn ailsefydlu gwiriadau Sicrwydd Ansawdd gan Benaethiaid Swyddogaethol, i ddadansoddi themâu cyffredin mewn cwynion a nodi strategaethau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn trwy ymgysylltu â'r grwpiau ffocws carcharorion a staff. | | |
| 9 | **Roedd nifer o gleifion wedi cael eu tynnu oddi ar feddyginiaethau gwrthseicotig a seiciatrig eraill, a oedd wedi arwain at ddirywiad yn eu cyflwr.** Creodd hyn anawsterau posibl pan oedd yn rhaid ailgyfansoddi triniaeth seiciatrig. | Er mwyn gwella goruchwyliaeth ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau gwrthseicotig a meddyginiaethau seiciatrig eraill, bydd y darparwr iechyd yn:<br><br>• Cyflwyno Fforwm Rhagnodwyr wythnosol i gefnogi'r holl ragnodwyr, trwy ddarparu trafodaeth amlddisgyblaethol ynghylch penderfyniadau rhagnodi cymhleth neu ragnodi meddyginiaethau y gellir eu masnachu. Mae hyn yn cynnwys lle bu tystiolaeth o ddargyfeirio neu feddwdod wrth ragnodi meddyginiaethau. Bydd fforymau bob pythefnos yn | Pennaeth Gofal Iechyd | Wedi’i Gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | canolbwyntio'n benodol ar feddyginiaethau iechyd meddwl.<br>• Wrth ragnodi meddyginiaethau iechyd meddwl a gychwynnir gan ofal eilaidd, bydd y rhagnodwr yn dogfennu cynllun cynhwysfawr sy'n disgrifio'r camau i'w cymryd gan y Meddyg Teulu (MT) mewn achos o feddwdod neu ddargyfeirio.<br>• Wrth gyrraedd CEM Berwyn, os bydd y Meddyg Teulu yn asesu pryderon ynghylch diogelwch neu briodoldeb meddyginiaethau iechyd meddwl a gychwynnir gan ofal eilaidd, bydd y rhain yn cael eu cyfeirio at ragnodwr y tîm iechyd meddwl ar gyfer adolygiad cynnar a phenderfyniad clinigol.<br>• Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn datblygu Cyfarfod Atebolrwydd a Rennir misol fel is-grŵp o'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau (GRhM) misol, i gynhyrchu llwybrau a phrosesau ar gyfer llinellau atebolrwydd clir ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau gwrthseicotig a seiciatrig eraill. Bydd aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Gyfarwyddwr Meddygol y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl, Cyfarwyddwr Meddygol Darparwr Meddygon Teulu a Fferyllydd Arweiniol. Mae Cylch Gorchwyl y grŵp hwn i'w gytuno yn y GRhM.<br>• Bydd y rhagnodwr yn rhoi esboniad clir i'r claf gan esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau rhagnodi. Bydd gwybodaeth cleifion ar gael i bob claf yn egluro’r rhesymeg y tu ôl i strategaeth rheoli meddyginiaethau CEM Berwyn. | Pennaeth Gofal Iechyd<br><br>Pennaeth Gofal Iechyd<br><br>Pennaeth Gofal Iechyd<br><br>Pennaeth Gofal Iechyd | Wedi’i Gwblhau<br><br>Medi 2022<br><br>Medi 2022<br><br>Medi 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cyflwyno mwy o adnoddau seiciatreg i gefnogi adolygiad amserol o feddyginiaethau iechyd meddwl a gychwynnir gan ofal eilaidd.<br>• Bydd y Pennaeth Gofal Iechyd yn goruchwylio'r gwaith o lywodraethu rhagnodi yng Ngharchar Berwyn drwy'r GRhM. | Pennaeth Gofal Iechyd<br><br>Pennaeth Gofal Iechyd | Ionawr 2023<br><br>Wedi'i Gwblhau |
| 10 | **Roedd trefniadau monitro ffôn a phost yn anhrefnus.**<br>Nid oedd monitro dros y ffôn bob amser yn cael ei wneud pan oedd angen i leihau'r risgiau o aflonyddu a gweithgarwch troseddol pellach. | Bydd CEM Berwyn yn gwella trefniadau monitro ffôn a phost drwy:<br><br>• Diwygio Cyfrifoldebau Cyflawni Diogelu'r Cyhoedd gan nodi'n glir y penaethiaid swyddogaethol cyfrifol ar gyfer pob maes. Mae Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd wedi symud i rôl sicrwydd a chydymffurfio er mwyn ysgogi canlyniadau gwell. Bydd y rhain yn cael eu monitro'n fisol trwy Gyfarfod Grŵp Llywio Diogelu'r Cyhoedd a gadeirir gan y Dirprwy Lywodraethwr.<br>• Gweithredu Fframwaith Sicrwydd ac Adrodd lle caiff darpariaeth ei fonitro a'i herio i gyflawni gwelliant a darpariaeth barhaus.<br>• Cynhaliwyd adolygiad o'r Adnoddau Ffôn PIN (Rhif Adnabod Personol) cyn yr arolygiad; fodd bynnag, aethpwyd i'r afael ag anghysondebau o ran darparu a goruchwylio ers hynny. Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei fonitro trwy'r Cyfarfod Adnoddau ddwywaith yr wythnos, gydag ymrwymiad o oramser wedi'i dargedu i gefnogi monitro Ffôn PIN. Mae'r Adolygiad Adnoddau hwn wedi nodi gofyniad hyfforddi ymhlith dechreuwyr newydd, a chytunwyd ar gynllun hyfforddi i fynd i'r | Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr | Medi 2022<br><br>Medi 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | afael â'r diffyg hwn yn y personél sy'n gallu cyrchu a defnyddio'r System Monitro Ffôn PIN.<br>• Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno ar Gyfrifoldebau Gweithredol Gwarchod y Cyhoedd, a bydd gwelliant yn cael ei adrodd drwy'r Broses Adolygu Chwarterol sefydledig.<br>• Adolygu Cworwm a Chylch Gorchwyl Grŵp Llywio Diogelu'r Cyhoedd gyda gofyniad i awdurdodau cyfrifol fod yn bresennol.<br>• Cymerwyd camau o fewn y Swyddogaeth Rheoli Troseddwyr i sicrhau y cysylltir â'r sefydliadau anfon, er mwyn darparu trosglwyddiad i'r rhai sydd wedi bod yn destun monitro yn flaenorol. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond y rhai y mae risg barhaus iddynt neu na fu unrhyw adnabyddiaeth/monitro cyn trosglwyddo, fydd yn cael eu gosod o dan gyfyngiadau ar gyrraedd CEM Berwyn. | Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr<br><br>Llywodraethwr | Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022<br><br>Medi 2022 |
| 11 | **Nid oedd amlder ac ansawdd y sesiynau rheolwyr troseddwyr gyda charcharorion yn ddigon da i yrru cynlluniau dedfrydu.**<br>Roedd ffocws y gwaith wedi symud i gyfeiriad amcanion terfyn amser megis adroddiadau parôl, categoreiddio ac adroddiadau System Asesu Troseddwyr (OASys). | Er mwyn gwella amlder ac ansawdd sesiynau rheolwyr troseddwyr yn y tymor byr i ganolig, hyd nes y gellir mynd i'r afael â'r pryderon tymor hwy o ran staffio'r gwasanaeth prawf, bydd CEM Berwyn yn:<br><br>• Cytuno ar Strategaeth Recriwtio gyda Chydweithwyr HMPPS i sicrhau y gellir sefydlu'r Model Cymorth Rheoli Achosion yn llawn, er mwyn galluogi cyswllt ansoddol a gwella gweithgarwch sy'n seiliedig ar ddilyniant. Ateb dros dro yw hwn tra bod Proses Cymhwyster PQiP yn digwydd i lefel sy'n gallu mynd i'r afael â'r diffyg mewn Swyddogion Prawf yn Genedlaethol. Mae'r Strategaeth Recriwtio hon yn | Llywodraethwr | Medi 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfuno Graddau Swyddogion Cymorth Prawf a chynnydd yng Ngraddau Rheolwyr Troseddwyr Carchar (POM) a fydd yn cyd-fynd â Swyddogion Prawf er mwyn cefnogi Rheoli Achosion yn effeithiol. Mae cyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu ar recriwtio swyddogion y gwasanaeth Prawf a dilyniant trwy recriwtio a fetio. | | |
| | | • Gweithredu Model Cymorth Rheoli Achos i gefnogi POMau a Charcharorion yn y tymor byr i ganolig er mwyn sicrhau bod Tasgau Rheoli Risg Craidd yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn amserol. Cytunwyd ar swyddogaeth cymorth gweinyddol i sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu rheoli a'u datblygu'n briodol. Mae cyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu ar recriwtio swyddogion y gwasanaeth Prawf a dilyniant trwy recriwtio a fetio. | Llywodraethwr | Rhagfyr 2022 |
| | | • Cyflwyno Cynllun Hyfforddi a Goruchwylio clir gan Uwch Reolwyr Prawf er mwyn sicrhau bod staff newydd wedi'u cyfarparu a'u cefnogi'n llawn i reoli'r gofynion llwyth gwaith o fewn y model amgen hwn. | Llywodraethwr | Tachwedd 2022 |
| | | • Bydd Uwch Swyddogion Prawf yn monitro amlder ac ansawdd sesiynau rheolwyr troseddwyr, gan nodi blaenoriaethau i helpu i ysgogi cynlluniau dedfryd a dilyniant carcharorion, a rhoi diweddariad cynnydd misol i'r Llywodraethwr. | Llywodraethwr | Rhagfyr 2022 |
| | | • Cychwyn Clinigau Galw Heibio Tîm Rheoli Troseddwyr Carchar ym mhob un o'r Tai i gefnogi staff a charcharorion gydag Ymholiadau Uned Rheoli Troseddwyr (OMU), ac i helpu i bontio'r bwlch mewn gwybodaeth ymhlith y grŵp staff dibrofiad, a chefnogi | Llywodraethwr | Medi 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | absenoldeb Gwaith Allweddol sy'n canolbwyntio ar yr OMU.<br>• Cyflwyno Model diwygiedig Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, gan integreiddio'r ddarpariaeth adsefydlu newydd, sy'n ddigon gwydn i wrthsefyll y pwysau presennol ar adnoddau ond a fydd yn tyfu'n gynyddrannol wrth i'r strategaeth recriwtio fynd rhagddi. | Llywodraethwr | Mawrth 2023 |
| | | Mae pryderon ynghylch staff y gwasanaeth prawf yn cael sylw yn y tymor hir drwy recriwtio staff prawf newydd a hyfforddedig (PQiPs) gan HMPPS Cymru. Mae'r prognosis hirdymor yn awgrymu na fydd y pwysau staffio yn cael sylw llawn tan 2025. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau interim rydym yn eu profi, bydd strwythur staffio 'dros dro' newydd yn cael ei gytuno a'i roi ar waith i wneud y mwyaf o'r defnydd o staff gwasanaeth prawf hyfforddedig, a chyflwyno cymorth Swyddogion Gwasanaeth Prawf (PSO) nes bod staff PQiP hyfforddedig ar gael. Nod y carchar yw cael cymeradwyaeth ar gyfer y trefniadau interim newydd hyn ym mis Hydref 2022. | HMPPS | Rhagfyr 2022 |